



ESGOBAETH LLANELWY
**DATGLOI EIN
POTENTIAL**
UNLOCKING OUR
POTENTIAL
DIOCESE OF ST ASAPH

Annwyl gyfeillion,

Bu'n arferiad gennyf bob blwyddyn gyhoeddi Llythyr Bugeiliol ar gyfer yr Adfent i'n cynulleidfaoedd. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r neges honno wedi dod yn fwy cymhleth, gyda neges fideo yn cael ei hategu gan fformatau sain ac ysgrifenedig. Mae neges eleni'n wahanol. Ymhlith ein blaenoriaethau fel esgobaeth mae ein gwaith gyda phobl ifanc, ac, os ydym am fod yn effeithiol yn ein cenhadaeth, mae angen i ni ddysgu gwrando ar bobl ifanc a'u dyheadau a'u ffydd. Dyna'n union rwyf wedi'i wneud, a chyda chymorth tîm yr esgobaeth, rwyf wedi bod yn siarad â thri o'n pobl ifanc, Alisha, Francesca a Taliesin.

Fy ngobaith yw y bydd y Sgwrs a'r Neges Adfent hon yn cael ei defnyddio lle bynnag y bo modd, yn lle'r bregeth yn y brif weithred addoli ar ddydd Sul yr Adfent, neu'r wythnos ganlynol.

Gallaf ddeall nad yw hyn bob amser yn hawdd i'w drefnu, hyd yn oed yn ein byd modern sy'n hoff o dechnoleg, ac felly, lle nad yw'n bosibl chwarae'r sgwrs go iawn, hoffwn i'r llythyr hwn gael ei ddarllen.

Roedd y bobl ifanc y bûm i'n siarad â nhw'n gwybod mai tymor y paratoi ar gyfer y Nadolig yw'r Adfent. Roedden nhw hefyd yn deall bod amrywiaeth eang o baratodau, ac y gall hwn fod yn gyfnod prysur - ac anodd, hyd yn oed - i deuluoedd. Ar yr un pryd, roedden nhw'n awyddus i ddod o hyd i ffyrdd o ganfod Duw fel rhan o'r paratoad ysbrydol ar gyfer y Nadolig, gan archwilio gyda mi lle mae canfod Duw.

Mae neges arbennig i ni fel eglwysi. Doedd eistedd yn oddefol a gwrando ddim yn ddull addoli a oedd yn denu'r bobl ifanc y bûm i'n siarad â nhw, ac roedden nhw'n chwilio am gyfle i fod yn rhan o addoliad a oedd yn ennyn eu diddordeb, a lle bydden nhw'n gyfranogwyr gweithredol. Mae gwersi i'w dysgu yma.

Fodd bynnag, roedden nhw hefyd yn chwilfrydig ynghylch perthnasedd Iesu yn cyhoeddi dyfodiad y Deyrnas: bod y neges Gristnogol yn siarad yn uniongyrchol am faterion fel

cyfiawnder a heddwch, digartrefedd a thlodi. Os yw Adfent yn amser i ganfod Duw, mae hefyd yn amser i feddwl o ddifrif am yr hyn y mae Duw yn ei ddweud am y materion hyn.

Hyd yn oed os na fydd cyfle i chi glywed Neges yr Adfent yn ein haddoliad heddiw, fy ngobaith yw y bydd pawb yn cymryd y cyfle i edrych ar y neges gartref neu mewn grwpiau astudio. Mae modd dod o hyd iddi yn:

- <https://stasaph.churchinwales.org.uk/people/the-bishop-of-st-asaph/advent-message-2018/>
- Neu Youtube: <https://youtu.be/x8jOWZm5kKs>

Mae angen i ni ddod yn Eglwys lle mae llais ein haelodau iau yn cael ei gymryd o ddifrif ac yn cael sylw cydradd. Eleni, cawsom alwad i agor ein heglwysi i'w cyfranogiad, i feddwl o ddifrif am baratodau ysbrydol yr Adfent, a chymhwyso ein ffydd i'r materion sy'n herio'r byd a'n cymdeithas wrth i ni geisio cyhoeddi Teyrnas Dduw.

Hoffwn ddiolch i Alisha, 'Chesca a Tal am eu hamser, eu brwdfrydedd, a'u her, a'r alwad i adnewyddu ein ffydd a'n heglwysi yn ystod tymor yr Adfent eleni.

Yng Nghrist

A handwritten signature in black ink, reading "Gregory Iwan". The signature is written in a cursive style with a large, sweeping flourish at the end.